# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | **Rheoliadau Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2026** |
| **Swyddog(ion) sy'n cwblhau'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):** | **Polisi caffael (deddfwriaeth)** |
| **Adran:** | **Caffael a Masnachol** |
| **Pennaeth yr Is-adran / Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):** | **Simon Brindle** |
| **Ysgrifennydd Cabinet / Gweinidog sy'n gyfrifol:** | **Jack Sargeant AS, Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol** |
| **Dyddiad cychwyn:** | **25/03/26** |

# CYNNWYS

Adran 1. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham? ........ 3

Adran 2. Beth fydd yr effaith ar lesiant cymdeithasol? ........ 6

Adran 3. Beth fydd yr effaith ar lesiant diwylliannol a'r Gymraeg? ........ 9

Adran 4. Beth fydd yr effaith ar lesiant economaidd? ........ 10

Adran 5. Beth fydd yr effaith ar lesiant amgylcheddol? ........ 12

Adran 6. Y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Beth fydd yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol?...... 17

Adran 7. Cofnod o'r asesiadau effaith llawn sy'n ofynnol ........ 18

Adran 8. Casgliad ........ 19

Adran 9. Datganiad ........ 20

Asesiadau Effaith Llawn ........ 22

A. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ........ 22

B. **SGRINIO'R ASESIAD O'R EFFAITH AR DDIOGELU DATA** ........ 32

C. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG ........ 37

D. Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth ........ 41

## ADRAN 1. PA GAMAU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

| **Acronym** | **Diffiniad** |
|---|---|
| CPG | Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol |
| "y Ddeddf" | Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 |
| "y Rheoliadau" | Rheoliadau Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2026 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 |

1. Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 ("y Ddeddf") yn darparu fframwaith i wella llesiant pobl Cymru drwy wella gwasanaethau cyhoeddus drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg, a chaffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol.

2. Mae'r Ddeddf a'r rheoliadau a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf yn gam mawr tuag at gyflawni ymrwymiadau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Mae'n sefydlu dull caffael cyhoeddus strategol sy'n cynorthwyo awdurdodau contractio i sicrhau bod nodau llesiant yn ystyriaethau canolog wrth gaffael er mwyn gwella deilliannau a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. Drwy gryfhau partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg, ac ymgorffori caffael cymdeithasol gyfrifol, mae'r Ddeddf yn anelu at ysgogi newid cadarnhaol a pharhaol.

3. Mae'r asesiad effaith hwn yn ymwneud â Rheoliadau Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2026 ("y Rheoliadau") sy'n gweithredu'r drefn gaffael cymdeithasol gyfrifol newydd a sefydlwyd gan y Ddeddf. Felly, mae hefyd yn ystyried effeithiau'r Ddeddf ei hun.

4. I grynhoi, mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer:
    - sefydlu'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (y "CPG");

- dyletswydd statudol ar rai cyrff cyhoeddus i geisio consensws neu gyfaddawd gyda'u hundebau llafur cydnabyddedig (neu, lle nad oes undeb llafur cydnabyddedig, cynrychiolwyr eraill o'u staff), wrth osod eu hamcanion llesiant, a chyflawni'r amcanion hynny o dan adran 3(2) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ("Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol");
- dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â phartneriaid cymdeithasol, cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr drwy'r CPG wrth gyflawni eu hamcanion llesiant o dan adran 3(2)(b) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
- diwygio adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 drwy roi 'gwaith teg' yn lle 'gwaith teilwng' o fewn nod presennol "Cymru lewyrchus";
- dyletswydd statudol ar rai cyrff cyhoeddus[1] i ystyried caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol wrth wneud gwaith caffael, i osod amcanion mewn perthynas â nodau llesiant, ac i gyhoeddi strategaeth gaffael;
- cyrff cyhoeddus penodol i gyflawni dyletswyddau rheoli contractau i sicrhau bod deilliannau cymdeithasol gyfrifol yn cael eu dilyn drwy gadwyni cyflenwi;
- dyletswyddau adrodd i'w gosod ar y cyrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol a'r ddyletswydd caffael;
- is-grŵp caffael o'r CPG i ddarparu gwybodaeth a chyngor i'r CPG ynghylch y dyletswyddau caffael sy'n berthnasol i awdurdodau contractio.

5. Mae'r Rheoliadau'n ategu'r Ddeddf drwy ddiffinio termau allweddol megis 'contract rhagnodedig' a 'contract cofrestradwy', a thrwy ddiwygio adran 27(2) o'r Ddeddf i newid y term 'pobl ag anableddau' i fod yn 'pobl anabl'. Maent hefyd yn nodi'r wybodaeth y mae ei hangen ar Weinidogion Cymru mewn adroddiadau blynyddol ar gaffael cymdeithasol gyfrifol.

6. Mae'r Rheoliadau'n cynnwys darpariaethau sy'n dod o dan weithdrefnau negyddol a chadarnhaol. Yn unol ag adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, gellir cyfuno darpariaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn yr un offeryn â darpariaeth sy'n

[1]Mae atodlen 1 o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn rhestru'r cyrff cyhoeddus y mae'r ddyletswydd statudol hon yn berthnasol iddynt.

ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. O ganlyniad, mae’r weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn gymwys i’r Rheoliadau hyn, sy’n golygu bod yn rhaid dwyn y Rheoliadau gerbron y Senedd, eu trafod, ac yna eu cymeradwyo drwy benderfyniad y Senedd cyn y gallant ddod i rym.

# ADRAN 2. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT CYMDEITHASOL?

## 2.1 Pobl a chymunedau

7. Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r wybodaeth y mae ei hangen ar Weinidogion Cymru i asesu i ba raddau y mae awdurdod contractio, wrth gyflawni ei amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol, yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant, a'r graddau y mae caffael cyhoeddus yr awdurdod hwnnw, yn gyffredinol, yn cyfrannu at gyflawni'r nodau hynny. Er mwyn darparu'r wybodaeth, rhaid i awdurdodau contractio gasglu gwybodaeth benodol am gyflenwyr ar gyfer contractau o fewn cwmpas, ac mae hyn yn cynnwys nodweddion gwaith teg.

8. Mae gwaith teg yn dylanwadu'n sylweddol ar lesiant cyffredinol yng Nghymru. Mae rhaglenni'r Llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus yn ganolog o ran cynorthwyo bywydau pobl, ac mae sicrhau arferion cyflogaeth deg a sicrhau bod barn gweithwyr yn cael ei chlywed yn hanfodol. Fodd bynnag, gall rhai arferion cyflogaeth, megis contractau dim oriau a roddir ar waith heb gytundeb â gweithwyr, effeithio'n negyddol ar lesiant drwy achosi ansefydlogrwydd ariannol.

9. Mae cryfhau partneriaeth gymdeithasol drwy gydfargeinio ac ymgysylltu ag undebau llafur yn meithrin cymdeithas fwy cyfartal a chynhwysol. Mae'n sicrhau cynrychiolaeth deg i weithwyr, yn cefnogi cytundebau cytbwys gyda chyflogwyr, ac yn llywio polisi cyhoeddus gwell. Mae hyn yn cyfrannu at well gwasanaethau cyhoeddus a llesiant cyffredinol.

10. Mae cofnodi profiadau bywyd ac ymgysylltu â phobl a chymunedau, yn enwedig y rhai â nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn hanfodol er mwyn llunio polisi effeithiol. Mae casglu gwybodaeth am gyflenwyr sydd â chydraddoldeb wedi ei ymgorffori yn eu prosesau recriwtio a chyflogi yn helpu i greu gweithleoedd mwy cynhwysol.

## 2.2 Hawliau plant

11. Mae'r Rheoliadau hyn yn atodol i'r Ddeddf, felly penderfynwyd nad oes angen asesiad llawn o'r effaith ar hawliau plant.

12. Nid oedd angen asesiad effaith llawn ar gyfer y Ddeddf oherwydd disgwylir i'r ddeddfwriaeth ddylanwadu'n gadarnhaol ar hawliau plant drwy hyrwyddo gwaith teg, caffael cymdeithasol gyfrifol, a gwasanaethau cyhoeddus gwell. Mae'r Rheoliadau'n ategu

ymhellach amcanion y Ddeddf i hyrwyddo gwaith teg, gyda buddion uniongyrchol posibl ar gyfer unigolion rhwng 16 a 18 oed sydd mewn gwaith neu'n dechrau gweithio, a buddion anuniongyrchol i blant iau drwy leihau tlodi mewn gwaith a gwella'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ar gyfer rhieni.

13. Bydd dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol hefyd yn gwella diwydrwydd dyladwy mewn cadwyni cyflenwi, gan helpu i fynd i'r afael â risgiau yn ymwneud â llafur plant a chamfanteisio ar blant, gan gynnwys dramor. Er nad oes modd mesur maint llawn yr effaith hon ar hyn o bryd, mae'n gam cadarnhaol tuag at ddiogelu hawliau plant.

## 2.3 Cydraddoldeb

14. Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys newid o ran geiriad i gyd-fynd â'r model cymdeithasol o anabledd, a gofyniad i awdurdodau contractio gasglu metrigau ynghylch a oes gan gyflenwyr arferion recriwtio a chyflogaeth cynhwysol ar waith.

15. Mae cynnal asesiad o'r effaith amgylcheddol yn orfodol, ac mae'r asesiad wedi ei gwblhau ac i'w weld yn Atodiad A.

## 2.4 Prawfesur polisïau o safbwynt anghenion cefn gwlad

16. Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau hyn greu effeithiau gwahanol ar bobl sy'n byw neu'n gweithio mewn cymunedau gwledig o'i gymharu â chymunedau eraill yng Nghymru, ac felly nid oes prawfesur llawn o bolisïau o safbwynt anghenion cefn gwlad wedi ei gwblhau. Fodd bynnag, un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yw datblygu economïau lleol a sylfaenol. Bydd arferion caffael da yn hyrwyddo twf economïau lleol ac yn annog defnyddio busnesau lleol, gan gynorthwyo cyflawniad Cymru fwy cydnerth, cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Bydd hyrwyddo arferion cyflogaeth da hefyd yn gwella llesiant pobl mewn ardaloedd gwledig.

## 2.5 Iechyd

17. Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau hyn effeithio'n uniongyrchol ar benderfynyddion iechyd. Fodd bynnag, mae deilliannau iechyd yn cyd-fynd â ffyniant economaidd ac amodau amgylcheddol, felly gellir profi effaith anuniongyrchol y Rheoliadau hyn drwy ddeilliannau iechyd gwell dros amser.

18. Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau hyn greu effaith iechyd wahaniaethol mewn perthynas â grwpiau penodol.

19. Mae gwaith teg yn gysylltiedig ag iechyd corfforol a meddyliol gwell, tra gall gwaith annheg fod yn niweidiol. Mae'r Rheoliadau hyn yn hyrwyddo gweithleoedd diogel ac iach drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio gasglu gwybodaeth am y graddau y mae eu cyflenwyr yn hyrwyddo gwaith teg ac amgylchedd lle mae lleisiau gweithwyr yn cael eu clywed.

## 2.6 Preifatrwydd

20. Mae asesiad o'r effaith ar breifatrwydd wedi ei gwblhau yn Atodiad B.

# ADRAN 3. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT DIWYLLIANNOL A'R GYMRAEG?

## 3.1 Llesiant diwylliannol

21. Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer diwylliant yw 'Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden'. Mae diwylliant yn cynnwys amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd, a'r celfyddydau; mae treftadaeth yn cynnwys yr amgylchedd hanesyddol adeiledig yn ogystal â threftadaeth anghyffyrddadwy megis traddodiadau; mae'r celfyddydau'n cwmpasu sectorau perfformio a chreadigol gan gynnwys cerddoriaeth, llenyddiaeth, theatr a chelf, tra bod chwaraeon a hamdden yn cynnwys chwaraeon elitaidd a chymunedol yn ogystal â chyfleoedd i gymryd rhan mewn hamdden awyr agored ehangach.

22. Ni nodir unrhyw gysylltiad clir rhwng y Rheoliadau hyn a nodau diwylliannol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

23. Ni nodir unrhyw gysylltiad clir o ran y Rheoliadau yn effeithio'n negyddol ar hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth, neu allu pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden.

## 3.2 Y Gymraeg

24. Mae cyflawni Cymru â chymunedau cydlynus lle mae'r Gymraeg yn ffynnu ymhlith ein nodau o fewn cwmpas Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

25. Mae'r Rheoliadau a'r Ddeddf yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r Gymraeg drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio gasglu data ar gyfran gwerth ei chontract sy'n ymwneud â chyflenwyr sy'n cynnig cyfle i weithwyr ddefnyddio, dysgu, neu wella eu Cymraeg. Gallai hyn annog busnesau a sefydliadau'r trydydd sector i gynnig mwy o gyfleoedd i'w staff.

26. Gweler Atodiad C isod.

## ADRAN 4. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT ECONOMAIDD?

Mae cefnogi twf yn economi Cymru, a thrwy hyn mynd i'r afael â thlodi, wrth wraidd Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.

### 4.1 Busnes, y cyhoedd, ac unigolion

27. Gall y Rheoliadau gynorthwyo'r economi drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio gasglu gwybodaeth am gyfran gwerth y contract a ddyfernir sy'n ymwneud â chyflenwyr sydd â chyfeiriad post neu gyfeiriad eu prif swyddfa neu swyddfa gofrestredig yng Nghymru ac sy'n fusnesau bach a chanolig eu maint neu'n sefydliad anllywodraethol sy'n cael ei arwain gan werth, ac sy'n ailfuddsoddi ei wargedion yn bennaf i hyrwyddo amcanion cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol.

### 4.2 Y sector cyhoeddus gan gynnwys llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill

28. Cyflwynodd y Ddeddf ddyletswydd i gyrff cyhoeddus a gwmpesir gan y Ddeddf i ymgysylltu mewn partneriaeth gymdeithasol ag undebau llafur a chynrychiolwyr eraill staff, gan gynnal gwell darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus a lleihau anghydraddoldeb drwy greu gweithlu sy'n fwy brwdfrydig ac sy'n ymwneud yn fwy â'u staff. Bydd y CPG yn darparu llwyfan strwythuredig ar gyfer casglu mewnbwn cyflogwyr a gweithwyr ar gyfer polisi'r Llywodraeth.

29. Disgwylir i'r gwaith o gryfhau strwythurau partneriaeth gymdeithasol ar draws y sector cyhoeddus wella cydweithrediad, llesiant y gweithlu, a deilliannau gwasanaethau.

30. Mae caffael y sector cyhoeddus gwerth dros £11 biliwn y flwyddyn, a nod y Rheoliadau hyn yw cryfhau'r cysylltiad rhwng gwariant cyhoeddus a chyflawni gwaith teg a deilliannau cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol.

### 4.3 Y trydydd sector

31. Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys rhwymedigaeth ar awdurdodau contractio i gofnodi cyfran gwerth eu contract a ddyfernir mewn blwyddyn ariannol, sy'n ymwneud â sefydliadau trydydd sector (sefydliad anllywodraethol sy'n cael ei arwain gan werth, ac sy'n ailfuddsoddi ei wargedion yn bennaf i hyrwyddo amcanion cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol). Bydd hyn yn cynyddu tryloywder ynghylch ble y mae arian cyhoeddus yn mynd, ac yn annog awdurdodau contractio i sicrhau eu bod yn rhoi'r cyfle mwyaf posibl i sefydliadau'r trydydd sector wneud cais am gontractau a'u hennill.

## 4.4 Yr effaith ar gyfiawnder

Atebwch y cwestiynau canlynol mewn perthynas â'ch cynnig:

- **A ydych chi'n cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol newydd?**

32. Nac ydym

- **A ydych chi'n creu, dileu neu ddiwygio trosedd?**

33. Nac ydym

- **A allai eich cynnig arwain at unrhyw effaith arall ar y system gyfiawnder, e.e. drwy fwy o ymgyfreitha, yr angen am gymorth cyfreithiol, apêl yn erbyn penderfyniad corff cyhoeddus?**

34. Ni ddylai'r Rheoliadau arwain at fwy o ymgyfreitha, yr angen am gymorth cyfreithiol, nac apêl yn erbyn penderfyniad corff cyhoeddus. Mae'r Rheoliadau'n cyflwyno diffiniadau ar gyfer termau o fewn y Ddeddf yn bennaf, ac maent hefyd yn diffinio pa wybodaeth sy'n ofynnol yn yr adroddiad blynyddol ar gaffael cymdeithasol gyfrifol.

35. O'r herwydd, ni chwblhawyd asesiad o'r effaith ar gyfiawnder.

## ADRAN 5. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT AMGYLCHEDDOL?

36. O dan adran 9 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi, cyhoeddi a gweithredu polisi adnoddau naturiol, a chymryd pob cam rhesymol i'w weithredu, ac i annog unigolion eraill i gymryd camau o'r fath. Cyhoeddwyd y Polisi Adnoddau Naturiol ym mis Awst 2017.

| | | |
|---|---|---|
| **Angenrheidiol ar gyfer pob cynnig** | • Blaenoriaethau, heriau a chyfleoedd cenedlaethol y Polisi Adnoddau Naturiol | 5.1a<br>5.1b |
| **Angenrheidiol ar gyfer pob cynnig** | • Bioamrywiaeth | 5.2 ac Atodiad F |
| **Angenrheidiol ar gyfer pob cynnig** | • Newid yn yr hinsawdd | 5.3 |
| Cynlluniau a rhaglenni penodol sy'n gofyn am Asesiad Amgylcheddol Strategol o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 | • Asesiad Amgylcheddol Strategol | 5.4 a Chanllawiau'r Asesiad Effaith Integredig |
| Cynigion a allai effeithio ar ardal cadwraeth arbennig neu ardal gwarchodaeth arbennig<br>(ACA / AGA) | • Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | 5.5 a Chanllawiau'r Asesiad Effaith Integredig |

| | | |
|---|---|---|
| Prosiectau penodol sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref, trafnidiaeth, amaethyddiaeth, coedwigaeth, y môr, draenio tir, a thrydan, y mae angen asesiad o'r effaith amgylcheddol ar eu cyfer o dan y gwahanol reoliadau sy'n ymwneud â'r asesiad o'r effaith amgylcheddol | • Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol | 5.6 a Chanllawiau'r Asesiad Effaith Integredig |

## 5.1 Adnoddau naturiol

**5.1a Sut fydd y cynnig yn cyflawni un neu ragor o'r blaenoriaethau cenedlaethol yn y Polisi Adnoddau Naturiol?**

37. Ar ôl ystyried y Rheoliadau yn erbyn blaenoriaethau'r Polisi Adnoddau Naturiol, nodwyd effaith gadarnhaol, ac felly nid oes asesiad effaith llawn wedi ei gynnal.

38. Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio gasglu gwybodaeth gan eu cyflenwyr ynghylch a oes ganddynt gynllun lleihau carbon ar waith ac a oes ganddynt gynllun amgylcheddol ar waith. Bydd y data hyn yn cael eu defnyddio i gyhoeddi gwybodaeth am gyfran gwerth y contract sy'n ymwneud â chyflenwyr sydd â'r nodweddion hyn.

**5.1b A ydyw'r cynnig yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd cenedlaethol canlynol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?**

- *Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, drwy ddatblygu rhwydweithiau ecolegol cydnerth;*
- *Diogelu a chynyddu storfeydd carbon mewn priddoedd a biomas;*
- *Cynnal capasiti cynhyrchiol, yn benodol drwy wella ansawdd pridd a bioddiogelwch;*
- *Lleihau'r perygl o lifogydd;*
- *Cefnogi mesurau lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd drwy ddulliau rheoli ar lefel yr ecosystem;*

- *Lleihau llygredd sŵn a lefelau llygredd ein haer a gwella ansawdd yr aer;*
- *Gwella ansawdd ein dŵr a sicrhau bod digon ohono;*
- *Cymryd camau i leihau'r pwysau ar adnoddau naturiol, drwy effeithlonrwydd adnoddau ac ynni adnewyddadwy, er enghraifft;*
- *Cefnogi dulliau ataliol ar gyfer deilliannau iechyd, gyda ffocws penodol ar faterion iechyd cyhoeddus allweddol sy'n ymwneud â llygredd aer a sŵn sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, mynd i'r afael ag anweithgarwch corfforol ac iechyd meddwl;*
- *Cefnogi camau gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac economaidd;*
- *Cefnogi cydlyniant cymunedol;*
- *Cefnogi cyflogaeth ddiogel a sefydlog.*

39. Ar ôl ystyried y cynigion yn erbyn blaenoriaethau'r Polisi Adnoddau Naturiol, nodwyd effaith gadarnhaol, ac felly nid oes asesiad effaith llawn wedi ei gynnal. Bydd y Rheoliadau hyn yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chasglu gan gyflenwyr sy'n cwmpasu rhai o'r meysydd a restrir uchod.

## 5.2 Bioamrywiaeth

40. Er mwyn dangos cydymffurfedd ag adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae asesiad o'r effaith ar fioamrywiaeth wedi ei gwblhau yn Atodiad D isod.

## 5.3 Newid yn yr hinsawdd

## 5.3a Carbon

**Sut fydd y cynnig yn effeithio ar allyriadau nwyon tŷ gwydr?**

41. Mae swyddogion wedi ystyried effaith carbon y Rheoliadau hyn. Nid ydym wedi meintioli'r allyriadau sy'n gysylltiedig ag ef oherwydd ein bod yn disgwyl iddynt ddisgyn islaw'r trothwy ar gyfer dadansoddiad meintiol. Mae gennym gryn hyder yn ein hasesiad.

42. Mae hyn oherwydd y bydd y Rheoliadau hyn yn gofyn i gyflenwyr a oes ganddynt gynlluniau lleihau carbon a rheoli amgylcheddol ar waith ai peidio. Fodd bynnag, nid ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr roi'r nodweddion hyn ar waith. Gall y Rheoliadau hyrwyddo lefel uwch o ymgysylltiad â'r gofynion hyn, ond nid yw'n hysbys i ba raddau y gallai hyn ddigwydd.

## 5.3b Cydnerthedd yn wyneb newid hinsawdd

- A fydd unrhyw un o’r risgiau a amlinellir yn yr asesiad o risgiau newid hinsawdd y DU yn effeithio ar y cynnig hwn? **Bydd**
- A fydd y cynnig hwn yn gwaethygu unrhyw un o’r risgiau a nodir yn yr asesiad o risgiau newid hinsawdd y DU? **Bydd**

A fydd y cynnig hwn yn lleihau unrhyw un o’r risgiau a nodir yn yr asesiad o risgiau newid hinsawdd y DU? **Bydd**

43. Bydd y Rheoliadau’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio gasglu gwybodaeth am gynlluniau amgylcheddol eu cyflenwyr, a bydd hyn yn cynnwys cydnerthedd yn wyneb newid hinsawdd. Ond ni fyddant yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr gael cynlluniau ar waith ynghylch cydnerthedd yn wyneb newid hinsawdd.

## 5.4 Asesiad Amgylcheddol Strategol

**Eglurwch eich penderfyniad ynghylch a ydyw Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ofynnol yn ôl y gyfraith ai peidio.**

44. Nid yw’r Rheoliadau’n ymwneud ag unrhyw un o’r canlynol: amaethyddiaeth, coedwigaeth, pysgodfeydd, ynni, diwydiant, trafnidiaeth, rheoli gwastraff, rheoli dŵr, twristiaeth, cynllunio gwlad a thref, na defnydd tir. Nid yw’r cynnig ychwaith yn gosod y fframwaith ar gyfer cysyniad datblygu yn y dyfodol yn yr ardaloedd uchod, nac yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal asesiad o dan y gyfarwyddeb cynefinoedd.

## 5.5 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

**Eglurwch eich penderfyniad ynghylch a ydyw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ofynnol yn ôl y gyfraith ai peidio.**

45. Ni fydd y Rheoliadau’n effeithio ar unrhyw un o’r safleoedd gwarchodedig a restrir isod. Felly, nid oes Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd llawn wedi ei gynnal.

- Safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SoDdGA);
- Ardaloedd cadwraeth arbennig (ACA);
- Ymgeiswyr ardaloedd cadwraeth arbennig (yACA);
- Ardaloedd gwarchodaeth arbennig (AGA);
- Ardaloedd gwarchodaeth arbennig arfaethedig (AGAa);
- Safleoedd Ramsar (safleoedd a ddynodwyd o dan Gonfensiwn Ramsar 1971 ar gyfer y gwlyptiroedd sy’n bwysig ar lefel ryngwladol);
- Gwarchodfeydd natur cenedlaethol (GNC.

## 5.6 Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol

**Eglurwch eich penderfyniad ynghylch a ydyw Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn ofynnol yn ôl y gyfraith ai peidio.**

46. Ni fydd y Rheoliadau'n cynnwys unrhyw un o'r eitemau canlynol, felly nid oes angen asesiad effaith llawn:

- Gwaith adeiladu, mwyngloddio, echdynnu, neu waredu gwastraff ar y tir ac ar y môr (gan gynnwys datblygu trefol, priffyrdd, porthladdoedd, ynni, amaethyddiaeth, a ffermio pysgod);
- Newid defnydd tir;
- Coedwigo neu ddatgoedwigo;
- Gwelliant amaethyddol ar ardaloedd heb eu trin neu ardaloedd lled-naturiol;
- Ailstrwythuro daliadau tir yng nghefn gwlad;
- Echdynnu dŵr neu ddraenio tir.

## ADRAN 6. Y DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL. BETH FYDD YR EFFAITH AR ANFANTAIS ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL?

### 6.1 Y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol

47. Mae’r Rheoliadau hyn yn ymwneud â phenderfyniadau caffael, ac adrodd ar nodweddion cyflenwyr sy’n ennill contractau. Nid ydynt yn ymwneud â phenderfyniadau o natur strategol. Felly, ni chwblhawyd asesiad o’r effaith economaidd-gymdeithasol.

## ADRAN 7. COFNOD O'R ASESIADAU EFFAITH LLAWN SY'N OFYNNOL

| **Asesiad effaith** | **Oes / Nac oes** |
|---|---|
| Hawliau plant | Nac oes |
| Cydraddoldeb | Oes |
| Y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol | Nac oes |
| Prawfesur polisïau o safbwynt anghenion cefn gwlad | Nac oes |
| Iechyd | Nac oes |
| Preifatrwydd | Oes |
| Y Gymraeg | Oes |
| Economaidd / Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Oes |
| Cyfiawnder | Nac oes |
| Bioamrywiaeth | Oes |
| Newid yn yr hinsawdd | Nac oes |

| | |
|---|---|
| Asesiad Amgylcheddol Strategol | Nac oes |
| Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | Nac oes |
| Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol | Nac oes |

## ADRAN 8. CASGLIAD

**8.1 Sut y mae pobl y mae’r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi eu cynnwys yn y gwaith o’i ddatblygu?**

48. Cyhoeddwyd y Rheoliadau arfaethedig er mwyn ymgynghori arnynt am gyfnod o 12 wythnos, rhwng 22 Gorffennaf 2025 a 14 Hydref 2025. Gall awdurdodau contractio, cyflenwyr, ac aelodau’r cyhoedd roi eu barn ar y Rheoliadau arfaethedig. Yn ogystal, anfonwyd dogfen gyfathrebu at randdeiliaid mewnol ac allanol yn y Gymraeg a’r Saesneg, at y rhai y mae’r Rheoliadau fwyaf tebygol o effeithio arnynt (yr awdurdodau contractio y bydd angen iddynt gasglu’r data perthnasol, neu gymhwyso diffiniadau termau penodol o dan y Ddeddf i’w caffaeliadau).

49. Adolygwyd yr ymatebion i’r ymgynghoriad, a gwnaed rhai newidiadau i’r Rheoliadau. Cafodd newidiadau o’r fath eu cyfleu yn yr ymateb i’r ymgynghoriad sydd wedi ei gyhoeddi i’r cyhoedd ei weld.

**8.2 Beth yw’r effeithiau mwyaf arwyddocaol, cadarnhaol a negyddol?**

50. Bydd y Rheoliadau hyn yn cynnwys rhai diffiniadau technegol, ac yn gweithredu newid bach i’r geiriad i gyd-fynd â’r model cymdeithasol o anabledd. Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio gasglu gwybodaeth am eu cyflenwyr sy’n ymwneud â’r nodau llesiant. Er nad oes unrhyw rwymedigaeth ar y cyflenwyr i ymateb yn gadarnhaol i bob cwestiwn (yr amodau a restrir yn y rheoliadau), gall y weithred o gasglu’r wybodaeth eu hannog i wneud newidiadau cadarnhaol. Nid yw’n bosibl amcangyfrif i ba raddau y gallai hyn ddigwydd dros amser. Felly, mae’n anodd nodi cydberthyniad uniongyrchol rhwng y Rheoliadau hyn ac unrhyw un o’r effeithiau a drafodir yn yr asesiad hwn. Mae’r Asesiad Effaith Integredig hwn yn ymwneud â’r Rheoliadau yn unig. Cyhoeddwyd fersiwn arall yn ymwneud â dyletswyddau caffael ehangach yn y Ddeddf.

**8.3 Yng ngoleuni’r effeithiau a nodwyd, sut fydd y cynnig yn gwneud y canlynol?**

- **Cynyddu'r cyfraniad i'n hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant;**
- **Osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol.**

51. Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu cynllunio i roi gwybodaeth i Weinidogion Cymru am y cyflenwyr y mae cyrff y sector cyhoeddus yn eu contractio yng Nghymru. Y nod yw dylanwadu, drwy weithgarwch contractio, ar ymgysylltiad cyflenwyr â'r nodau llesiant, a chanolbwyntio mwy o sylw ar gyflawni llesiant cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol.

**8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo, ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

52. Mae adran 42 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi adroddiad ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru bob blwyddyn. Rhaid i'r adroddiad, yn benodol, gynnwys gwybodaeth am y canlynol— (a) yr adroddiadau blynyddol ar gaffael a gyhoeddir o dan adran 39; (b) canlyniadau unrhyw ymchwiliadau o dan adran 41. Bydd yr wybodaeth sy'n ofynnol gan y Rheoliadau hyn wedi ei chynnwys yn yr adroddiad blynyddol hwnnw, felly gellir mesur effaith y Rheoliadau bob blwyddyn.

53. Mae cynlluniau hefyd i roi fframwaith gwerthuso ar waith a chynnal gwerthusiad o'r dyletswyddau caffael yn y Ddeddf maes o law, a fyddai'n cynnwys y Rheoliadau hyn. Mae hyn yn dibynnu ar flaenoriaethau Llywodraeth newydd Cymru ar ôl etholiadau 2026.

## ADRAN 9. DATGANIAD

**Datganiad**

Rwy'n fodlon bod effaith y gweithredu arfaethedig wedi ei hasesu a'i chofnodi'n ddigonol.

Enw'r Uwch-swyddog Cyfrifol / Dirprwy Gyfarwyddwr:

Adran:

Dyddiad:

# ASESIADAU EFFAITH LLAWN

## A. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud dau newid deddfwriaethol bach a allai gael effaith gadarnhaol fach ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Yn gyntaf, mae newid y geiriad o "pobl ag anableddau" i "pobl anabl" yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru, a gall annog dealltwriaeth ehangach o'r model cymdeithasol o anabledd, a all, yn ei dro, ysgogi camau gweithredu pellach drwy gaffael. Mae'r newidiadau hyn yn berthnasol i'r tabl o gategorïau gwella y bydd cymalau model yn cael eu creu ynddynt. Bydd yn rhaid i gyrff cyhoeddus naill ai gynnwys y cymalau hyn yn eu contractau adeiladu neu roi gwybod i Lywodraeth Cymru, gyda rhesymau, pam nad ydynt yn gwneud hynny. Bydd defnyddio iaith sy'n gyson â model cymdeithasol o anabledd yn helpu i wella cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pobl anabl yn y diwydiant adeiladu. Gan fod mecanweithiau eraill o fewn y Ddeddf a pholisïau eraill sy'n anelu at gynyddu cyfleoedd ar gyfer pobl anabl, ni fydd yn bosibl mesur unrhyw gysylltiadau achosol.

Mae ymgynghoriad wedi cael ei gynnal ar y Rheoliadau drafft, ac roedd yr ymateb i gwestiwn am y newid hwn i'r geiriad yn gadarnhaol; roedd tua 60% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, a dim ond tua 6% oedd yn anghytuno â newid y geiriad oherwydd gwahanol farn ynghylch y defnydd o iaith.

Yn ail, bydd y Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio gasglu gwybodaeth gan gyflenwyr am nifer o faterion, gan gynnwys a oes ganddynt bolisïau recriwtio a chyflogaeth cynhwysol ar waith. Er nad yw'n orfodol i gyflenwr gael y rhain ar waith, oni bai eu bod hefyd yn cael eu gofyn am yr wybodaeth fel rhan o ymarfer caffael, gall annog rhai cyflenwyr i wella eu polisïau. Bydd cyrff cyhoeddus yn cyhoeddi'r data yn flynyddol yn eu hadroddiadau blynyddol ar gaffael cymdeithasol gyfrifol. Bydd adroddiad blynyddol Gweinidogion Cymru ar gaffael cyhoeddus hefyd yn cynnwys gwybodaeth am yr adroddiadau hyn a gyhoeddir.

Mae gan y dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol ehangach yn y Ddeddf y potensial i gael effaith gadarnhaol sylweddol ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Roedd hyn yn destun Asesiad Effaith Integredig cynharach.

Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad ar yr adran hon yn gadarnhaol ar y cyfan. Yn gyffredinol, roedd sylwadau negyddol yn adlewyrchu pryderon a wnaed gan gyrff cyhoeddus ynghylch y baich gweinyddol o gasglu'r wybodaeth hon. Nid oes gan hyn effaith benodol ar bobl â nodwedd warchodedig gan y bydd yn berthnasol i bob sefydliad. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar ddatrysiad technegol er mwyn lleihau costau casglu ac adrodd yr wybodaeth hon.

O ran y Rheoliadau hyn, nid oes unrhyw effeithiau negyddol tebygol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig yn deillio ohonynt.

Mae Gweinidogion Cymru yn ddarostyngedig i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus o dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Bil yn ceisio hyrwyddo a mynd ar drywydd cyfle cyfartal i bawb, p'un a ydynt yn rhannu nodwedd warchodedig ai peidio, wedi ei ysgogi gan weithio mewn partneriaeth gymdeithasol.

**Cofnod o effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig:**

| **Nodwedd neu grŵp gwarchodedig** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut fyddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?** |
|---|---|---|---|
| Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran) | Effaith gadarnhaol bosibl | Mae'r Rheoliadau drafft (Rheoliadau Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2026) yn ategu deddfwriaeth sylfaenol Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 ("y Ddeddf"). Nod y Ddeddf yw gwella llesiant, gan gynnwys llesiant cymdeithasol ac economaidd, a hyrwyddo arferion gwaith teg.<br><br>Er nad oes sôn uniongyrchol am oedran, mae rheoliad 5 o'r Rheoliadau drafft yn cynnwys set o fetrigau, sy'n mesur a ydyw'r | Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau negyddol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cyflenwr llwyddiannus yn cyflawni nodau cymdeithasol penodol. Ymhlith y rhain mae'r canlynol:<br><br>• a oes ganddyn nhw bolisi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant sy'n cwmpasu arferion recriwtio a chyflogaeth, ac<br>• a ydynt yn darparu hyfforddiant rheolaidd i staff i ddeall y polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac sut y mae'n effeithio arnynt.<br><br>Drwy gontractio awdurdodau sy'n casglu a chyhoeddi data o'r fath, mae Gweinidogion Cymru yn gobeithio annog awdurdodau i ymgysylltu â'u cyflenwyr a datblygu mewn meysydd lle gallent fod yn cael trafferth darparu (megis polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant). Yn | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ddelfrydol, byddai polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant effeithiol yn cael effaith gadarnhaol ar bob grŵp oedran. | |
| Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o anabledd[2] a sut y gallai eich cynnig achosi, yn anfwriadol, rhwystrau i bobl anabl sydd â gwahanol fathau o amhariadau, neu sut y gellid ei ddefnyddio'n rhagweithiol i'w dileu) | Effaith gadarnhaol | Mae rheoliad 6 o'r Rheoliadau drafft yn diwygio'r term "pobl ag anableddau" yn adran 27(2) o'r Ddeddf, gan ddefnyddio "pobl anabl", sef y derminoleg gywir. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y gwelliannau a gynlluniwyd i'w cyflawni gan y cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol yn cyd-fynd â'r model cymdeithasol o anabledd.<br><br>Yn yr un modd â'r uchod, mae'r Rheoliadau hefyd yn cynnwys casglu gwybodaeth am bolisïau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cyflenwyr. | Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau negyddol |

[2] Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Rydym yn deall nad yw pobl anabl yn anabl oherwydd eu hamhariadau, ond oherwydd y rhwystrau y maent yn dod ar eu traws mewn cymdeithas. Sicrhau bod eich cynnig yn cael gwared ar rwystrau, yn hytrach na'u creu, yw'r ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl. Am ragor o wybodaeth, ewch i'r fewnrwyd a chwiliwch am 'y model cymdeithasol'.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ailbennu rhywedd (y broses o drawsnewid a phobl drawsryweddol) | Effaith gadarnhaol bosibl | Yn yr un modd â'r uchod, mae'r Rheoliadau hefyd yn cynnwys casglu gwybodaeth am bolisïau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cyflenwyr. | Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau negyddol |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Effaith gadarnhaol bosibl | Yn yr un modd â'r uchod, mae'r Rheoliadau hefyd yn cynnwys casglu gwybodaeth am bolisïau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cyflenwyr. | Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau negyddol |
| Hil (gan gynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr, a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid) | Effaith gadarnhaol bosibl | Yn yr un modd â'r uchod, mae'r Rheoliadau hefyd yn cynnwys casglu gwybodaeth am bolisïau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cyflenwyr. | |
| Crefydd, cred a diffyg cred | Effaith gadarnhaol bosibl | Yn yr un modd â'r uchod, mae'r Rheoliadau hefyd yn cynnwys casglu gwybodaeth am bolisïau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cyflenwyr. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhyw / rhywedd | Potensial ar gyfer effaith<br><br>gadarnhaol | Yn yr un modd â'r uchod, mae'r Rheoliadau hefyd yn cynnwys casglu gwybodaeth am bolisïau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cyflenwyr. | |
| Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol) | Effaith gadarnhaol bosibl | Yn yr un modd â'r uchod, mae'r Rheoliadau hefyd yn cynnwys casglu gwybodaeth am bolisïau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cyflenwyr. | |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Effaith gadarnhaol bosibl | Yn yr un modd â'r uchod, mae'r Rheoliadau hefyd yn cynnwys casglu gwybodaeth am bolisïau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cyflenwyr. | |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Dim effaith | Nid yw'r Rheoliadau'n effeithio'n benodol ar blant a phobl ifanc hyd at 18 oed er eu bod yn hyrwyddo gwaith teg, a all effeithio mwy ar blant sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Aelwydydd incwm isel | Effaith gadarnhaol bosibl | Nid yw'r Rheoliadau'n effeithio'n benodol ar aelwydydd incwm isel, er eu bod yn hyrwyddo gwaith teg, a all effeithio'n fwy ar aelwydydd incwm isel. | |

**Hawliau dynol a chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig**

A fydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl yn eich barn chi? *(Darllenwch bwynt 1.4 yng Nghanllawiau'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol i gael rhagor o wybodaeth am hawliau dynol a chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig).*

| Hawliau dynol | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lliniaru effeithiau negyddol? |
|---|---|---|---|
| Hawliau dynol Gan gynnwys: Y Ddeddf Hawliau Dynol a chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig | Dim effaith | Nid yw'r Rheoliadau'n ymwneud yn uniongyrchol â hawliau dynol. Mae'r dyletswyddau caffael yn y Ddeddf yn ymgorffori'n ehangach y gofyniad i gyfrannu at nod llesiant Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang drwy gaffael. | |

**Hawliau dinasyddion yr UE / AEE a'r Swistir**

Mae Rhan 2 o Gytundeb Ymadael y DU â'r UE, ynghyd â Chytundeb Gwahanu â Gwladwriaethau'r AEE-EFTA a Chytundeb Hawliau Dinasyddion y Swistir ("Cytundebau Hawliau Dinasyddion") yn rhoi sicrwydd i ddinasyddion yr UE, EEA[3], a'r Swistir a oedd yn byw'n gyfreithlon yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020 y bydd hawliau eu dinasyddion yn cael eu diogelu.

Mae'r Cytundebau Hawliau Dinasyddion yn cael eu gweithredu mewn cyfraith ddomestig gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020.[4]

Bydd gan unigolion cymwys sy'n dod o fewn cwmpas y Cytundebau Hawliau Dinasyddion yr un hawliau parhaus i weithio, astudio a chael mynediad at wasanaethau a budd-daliadau cyhoeddus, i'r graddau y mae'r hawlogaethau hyn wedi deillio o aelodaeth y DU o'r UE, yn ogystal â'i chyfranogiad yng Nghytundeb yr AEE a Chytundeb Rhyddid Pobl i Symud rhwng yr UE a'r Swistir.

Yn amodol ar rai eithriadau cyfyngedig[5], bydd angen i unigolion fod wedi gwneud cais am statws preswylio newydd (naill ai statws cyn-sefydlog neu statws sefydlog) drwy'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Daeth y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais o'r fath i ben ar 30 Mehefin 2021.

Ystyriaethau polisi i'w hystyried:

- A ydych chi wedi ystyried a fydd eich cynnig polisi yn effeithio ar ddinasyddion yr UE, yr AEE neu'r Swistir y mae eu hawliau wedi eu diogelu gan y cytundebau sy'n ymwneud â hawliau dinasyddion?
- Os oes potensial am unrhyw effaith negyddol ar ddinasyddion o'r fath o'r UE, AEE neu'r Swistir, sut fydd unrhyw effeithiau o'r fath yn cael eu dileu neu eu rheoli os ystyrir bod rheolaeth yn briodol?
- A oes angen cyngor cyfreithiol?

Ystyriwch effeithiau eich polisi ar y meysydd isod, gan nodi a ydyw'r effaith yn gadarnhaol neu'n negyddol, ac unrhyw gamau y mae eu hangen i ddileu effaith negyddol bosibl. Nodwch sail eich ateb, gan gynnwys pan geisiwyd cyngor cyfreithiol, a nodwch hefyd lle nad yw hawl yn berthnasol i'ch polisi:

[3] Mae'r AEE yn cynnwys gwledydd yr UE yn ogystal â Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy.

[4] Adrannau 5 a 6 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020.

[5] Er enghraifft, pan fod unigolyn yn ddinesydd Iwerddon (gan gynnwys dinasyddion deuol y DU ac Iwerddon) neu lle roedd ganddo ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i'r DU neu aros ynddi).

**Preswylio** – yr hawl i breswylio a hawliau eraill sy’n gysylltiedig â phreswylio: hawliau ymadael a mynediad, ceisiadau am gael preswylio, cyfyngiadau ar hawliau mynediad a phreswylio;

**Cyd-gydnabyddiaeth o gymwysterau proffesiynol** – cydnabyddiaeth barhaus o gymwysterau proffesiynol a gafwyd gan ddinasyddion yr UE / AEE / y Swistir yn eu gwledydd eu hunain (ac sydd eisoes wedi eu cydnabod yn y DU);

**Mynediad at systemau nawdd cymdeithasol** – mae’r rhain yn cynnwys budd-daliadau, mynediad at addysg, tai, a mynediad at ofal iechyd;

**Triniaeth gyfartal** – mae hyn yn cwmpasu peidio â gwahaniaethu, triniaeth gyfartal, a hawliau gweithwyr;

**Hawliau gweithwyr** – mae gweithwyr ac unigolion hunangyflogedig sy’n dod o dan y cytundebau sy’n ymwneud â hawliau dinasyddion yn cael gwarant o’r un hawliau’n fras ag yr oeddent yn eu mwynhau pan oedd y DU yn aelod-wladwriaeth. Mae ganddynt hawl i beidio â bod yn destun gwahaniaethu oherwydd eu cenedligrwydd, a’r hawl i gael eu trin yn gyfartal â dinasyddion y DU.

(Gall gweithwyr trawsffiniol (y dinasyddion hynny sy’n byw mewn un gwladwriaeth ac yn gweithio’n rheolaidd mewn gwladwriaeth arall) barhau i weithio yn y DU os gwnaethant hynny erbyn 31 Rhagfyr 2020).

## B. SGRINIO'R ASESIAD O'R EFFAITH AR DDIOGELU DATA

Anfonwch eich asesiad at yr Uned Hawliau Gwybodaeth (YmholiadauDiogeluData@llyw.cymru) ynghyd â chopi at eich Perchennog Asedau Gwybodaeth.

| |
|---|
| Rheoliadau Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2026 |
| Enw'r Perchennog Asedau Gwybodaeth: Amy Dietrich |
| Rhif cyfeirnod Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd (rhif unigryw i adnabod y Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd hwn fel DivDate neu rif adnabod iShare y ddogfen hon) **rhif adnabod iShare: A59572116** |
| Disgrifiwch eich cynnig:<br><br>Bydd y Rheoliadau'n pennu rhywfaint o'r wybodaeth y mae Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol mewn adroddiadau blynyddol ar gaffael cymdeithasol gyfrifol, megis canran gwerth y contract a ddyfarnwyd yn ystod y flwyddyn i gyflenwyr sydd â chynllun lleihau carbon ar waith. Mae'r data a fydd yn gysylltiedig â'r Rheoliadau wrth gofnodi gwybodaeth a ddarperir gan gyflenwyr yn ystod y camau tendro, a fydd yn ymarfer ticio blychau i gadarnhau a oes ganddynt bolisïau penodol ar waith.<br><br>Ni fydd gofyniad newydd am enwau, cyfeiriadau ac ati, mae manylion y busnes wedi eu cofnodi ar GwerthwchiGymru fel safon ar hyn o bryd. Bydd awdurdodau contractio yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynhyrchu eu hadroddiadau blynyddol, a fydd yn dangos sut y gall cyflenwyr fod â pholisïau penodol ar waith, a gwybodaeth am werth cymdeithasol. Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cyhoeddi ar wefannau'r awdurdodau contractio. Bydd Llywodraeth Cymru yn cael yr adroddiadau hyn ac yna'n casglu ac yn cynhyrchu adroddiad blynyddol ar statws caffael cymdeithasol gyfrifol yng Nghymru. Bydd y ddogfen hon yn cael ei chyhoeddi'n flynyddol. |
| A ydyw sgriniad effaith diogelu data, neu asesiad o'r effaith diogelu data, eisoes wedi eu cynnal?<br><br>• **Ydyw** |

| | |
|---|---|
| A ydyw'r cynnig yn cynnwys prosesu data personol gan Lywodraeth Cymru neu unrhyw bartïon eraill?<br><br>• **Nac ydyw:** nid oes angen cwblhau gweddill y ffurflen hon. Dychwelwch ef i YmholiadauDiogeluData@llyw.cymru, ynghyd â chopi i'ch Perchennog Asedau Gwybodaeth.<br><br>Ticiwch yr eitemau data personol a fydd yn cael eu prosesu (nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr):<br><br>**Personol** | |
| Enw<br><br>Cyfeiriad<br><br>Cyfeiriad busnes<br><br>Cod post<br><br>Cyfeiriad e-bost | Rhifau ffôn<br><br>Dyddiad geni<br><br>Rhif trwydded yrru<br><br>Rhif pasbort / cerdyn adnabod<br><br>Ffotograffau / delweddau (y gellid eu defnyddio i adnabod unigolyn)<br><br>Arall (nodwch yma) |
| **Categori arbennig** | |
| Haniad o ran hil / ethnigrwydd<br><br>Barn wleidyddol<br><br>Credoau crefyddol / athronyddol<br><br>Aelodaeth o undeb llafur<br><br>Cyflyrau iechyd corfforol / meddyliol<br><br>Bywyd rhywiol<br><br>Cyfeiriadedd rhywiol<br><br>Cofnodion troseddol a llys (gan gynnwys troseddau honedig) | Data biometrig, e.e. DNA, olion bysedd |

| | |
|---|---|
| | |
| Os oes data personol categori arbennig yn cael eu prosesu, a ydyw'r data hyn yn cael eu casglu'n orfodol (h.y. heb i'r deiliaid data gael yr opsiwn i beidio â'u darparu)?<br>• Ydynt – rhowch y manylion<br>• Nac ydynt | |
| A ydyw unrhyw un o wrthrychau'r data, y bydd eu data personol yn cael eu prosesu, yn dod o dan y categorïau canlynol?<br>Plant (dan 12 oed)<br>Cleifion<br>Ceiswyr lloches<br>Cyflogeion Llywodraeth Cymru | |
| Rhowch syniad o raddfa'r prosesu (e.e. Cymru gyfan; grŵp targed)<br>Manylion | |
| O ran y data personol sy'n cael eu prosesu, nodwch y canlynol: | |
| Pwy yw'r rheolydd data | Manylion |
| Unrhyw broseswyr data | Manylion |
| A fydd y data yn cael eu rhannu | Manylion |
| Beth yw'r sail statudol ar gyfer prosesu'r data? Noder – nid yw'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ei hun yn darparu sail gyfreithiol statudol i brosesu data personol. | |
| A ydyw'r Gwasanaethau Cyfreithiol wedi cadarnhau bod y sail a amlinellir uchod yn darparu'r porth statudol angenrheidiol ar gyfer prosesu (gan gynnwys unrhyw rannu arfaethedig)?<br>• Ydynt<br>• Nac ydynt | |

| |
|---|
| A fydd y cynnig yn cynnwys prosesu data personol newydd neu brosesu data personol sydd wedi eu newid yn sylweddol am bob unigolyn?<br><br>• Bydd (rhowch y manylion)<br>• Na fydd |
| A fydd y data personol yn cael eu cydgrynhoi, eu cysylltu neu eu paru â data o ffynonellau eraill?<br><br>• Byddant (rhowch y manylion)<br>• Na fyddant |
| A fydd y data personol yn cael eu defnyddio ar gyfer gwneud penderfyniadau awtomataidd?<br><br>• Byddant (rhowch y manylion)<br>• Na fyddant |
| A fydd y data personol yn arwain at fonitro gwrthrychau'r data yn systematig?<br><br>• Byddant (rhowch y manylion)<br>• Na fyddant |
| A ydyw'r cynnig yn cynnwys polisïau / arferion newydd neu wedi eu newid ar gyfer casglu, cadw, neu rannu data ar gyfer data personol?<br><br>• Ydyw (rhowch y manylion)<br>• Nac ydyw |
| A oes gennych chi bolisi cadw clir, a pha bethau ymarferol sydd ar waith er mwyn i chi sicrhau bod eich Polisi Cadw yn cael ei gymhwyso?<br><br>• Oes (rhowch y manylion)<br>• Nac oes |
| A fydd y cynnig yn cynnwys cyflwyno technolegau sy'n ymwthio i breifatrwydd megis:<br><br>• Cardiau call<br>• Tagiau Adnabod Amledd Radio<br>• Dyfeisiau biometreg<br>• Gwyliadwriaeth weledol (e.e. teledu cylch cyfyng)<br>• Recordio delweddau a fideo digidol |

| |
|---|
| • Proffilio, cloddio data, neu gofnodi traffig electronig<br>• Technolegau lleoli (e.e. system leoli fyd-eang, olrhain ffonau symudol)<br>• Arall (rhowch y manylion) |
| A fydd y cynnig yn cynnwys prosesau rheoli neu ddilysu hunaniaeth newydd neu wedi eu newid?<br><br>• Bydd (rhowch y manylion)<br>• Na fydd |
| A fydd y cynnig yn cael yr effaith o alluogi adnabod unigolion a oedd yn ddienw o'r blaen?<br><br>• Bydd (rhowch y manylion)<br>• Na fydd |

Anfonwch eich asesiad at yr Uned Hawliau Gwybodaeth (YmholiadauDiogeluData@llyw.cymru) ynghyd â chopi at eich Perchennog Asedau Gwybodaeth.

I'w gwblhau gan yr Uned Hawliau Gwybodaeth

| |
|---|
| A oes angen Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data ar gyfer y cynnig hwn?<br><br>• Nac oes<br><br>Nid yw'r Rheoliadau arfaethedig yn ymwneud â phrosesu data personol. |
| A ddarparwyd cyngor ar gydymffurfedd â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data?<br><br>• Naddo<br><br>Amherthnasol – nid yw'r Rheoliadau arfaethedig yn ymwneud â phrosesu data personol. |


## C. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

*Cymraeg 2050* yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru yn llwyr ymroddedig i'r strategaeth newydd, gyda tharged o filiwn o siaradwyr wedi ei gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu. Mae'r Gymraeg yn ffynnu hefyd yn cael ei chynnwys fel un o'r saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gennym hefyd rwymedigaeth strategol i ystyried effaith lawn ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut y mae ein polisïau yn effeithio ar yr iaith a'r rheini sy'n ei siarad.

Mae gan strategaeth Cymraeg 2050 dair thema ryng-gysylltiedig:



Mae'r penawdau o dan bob thema yn amlinellu cwmpas y gweithgareddau a all effeithio ar yr iaith.

Fel rheol gyffredinol, os oes gan eich polisi y potensial i effeithio ar bobl, bydd yn effeithio mewn rhyw ffordd ar siaradwyr y Gymraeg ac felly ar y Gymraeg.

1. Rhif cyfeirnod Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (wedi ei gwblhau gan Dîm Safonau'r Gymraeg, cyfeiriad e-bost:Safonau.Standards@llyw.cymru): **09/12/2025**

2. A ydyw'r cynnig yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr a'r rhaglen waith gysylltiedig ar gyfer 2021–2026? Rhaglen waith 2021–2026 Cymraeg 2050

**Gweler yr ymateb i gwestiwn 3 isod.**

3. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg. Sut fydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oed (effeithiau cadarnhaol a/neu niweidiol)?Dylech nodi eich ymateb i'r canlynol wrth ateb y cwestiwn hwn, yn ogystal â chynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol arall:

    - Sut fydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith[6] (effeithiau cadarnhaol a/neu niweidiol)?

    - Sut fydd y cynnig yn effeithio ar addysg Gymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu niweidiol)?

    - Sut fydd y cynnig yn effeithio ar wasanaethau[7] sydd ar gael yn y Gymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu niweidiol)? (e.e. iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, trafnidiaeth, tai, gwasanaethau digidol, ieuenctid, seilwaith, yr amgylchedd, llywodraeth leol ac ati)

    - Sut fyddwch chi'n sicrhau bod pobl yn gwybod am wasanaethau sydd ar gael yn y Gymraeg ac yn gallu cael mynediad atynt a'u defnyddio mor hawdd ag y gallant yn Saesneg? Pa

[6] Gall y rhain fod yn gymunedau gwledig clos, rhwydweithiau cymdeithasol gwasgaredig mewn lleoliadau trefol, ac mewn cymunedau rhithwir sy'n ymestyn ar draws mannau daearyddol.

[7] Nod strategaeth y Gymraeg yw cynyddu'r ystod o wasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, a gweld cynnydd yn y defnydd o wasanaethau Cymraeg.

dystiolaeth / data ydych chi wedi eu defnyddio i lywio eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg neu grwpiau â diddordeb yn y Gymraeg?

- Pa dystiolaeth arall fyddai'n eich helpu i gynnal asesiad gwell?
- Sut fyddwch chi'n gwybod a ydyw eich polisi yn llwyddiant?

Fel y nodwyd uchod, un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yw datblygu economïau lleol a sylfaenol. Bydd arferion caffael da yn hyrwyddo twf economïau lleol ac yn annog defnyddio busnesau lleol, gan gynorthwyo cyflawniad Cymru fwy cydnerth, cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae hyn yn unol ag adroddiad ac argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, *Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg.* Bydd hyrwyddo arferion cyflogaeth da hefyd yn gwella llesiant pobl mewn ardaloedd gwledig, ac mae gan lawer ohonynt ddwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg.

Mae'r cynnig yn dangos cysylltiad clir â themâu 2 a 3 o strategaeth Gymraeg Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* – thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, yn benodol yn 'y gweithle', a thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun.

Mae'r platfform digidol canolog, sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau hyn a'r Ddeddf Caffael gysylltiedig, yn caniatáu i hysbysiadau tendr gael eu cyhoeddi'n ddwyieithog ar draws pob awdurdod contractio yng Nghymru.

Mae'r Ddeddf Caffael wedi gwella gallu busnesau bach a chanolig i gyflwyno cynnig am gontractau'r Llywodraeth, ac wedi lleihau rhwystrau i ddarpar gynigwyr. Mae'r newidiadau hyn yn dangos cysylltiadau â themâu 2 a 3 o Cymraeg 2050: drwy gynyddu gwasanaethau dwyieithog (cyfleoedd caffael mewn cymunedau Cymraeg) a thema 3, 'cymuned a'r economi' drwy ystyried busnesau bach a chanolig a chadw contractau yn ôl lleoliad.

Mae'r ddeddfwriaeth hefyd wedi galluogi awdurdodau lleol i gadw contractau islaw'r trothwy yn ôl lleoliad daearyddol penodol, gan gyflwyno'r potensial i greu cyfleoedd mwy yng Nghymru ac i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg ym mhob cymuned yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau diwygiedig yn effeithio ar y Gymraeg mewn un prif agwedd; bydd gofyn i awdurdodau contractio gasglu gwybodaeth gan gyflenwyr ynghylch a ydynt yn cynnig cyfleoedd i weithwyr ddefnyddio, dysgu, neu wella eu Cymraeg ai peidio. Mae hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at themâu 2 a 3 o *Cymraeg 2050*, drwy annog mwy o gyflenwyr i ystyried darparu'r cyfleoedd hyn, ond nid yw'n cynnwys mandad i wneud hynny. Yna, bydd awdurdodau contractio yn cyflwyno'r data—canran gwerth y contract a ddyfernir o fewn blwyddyn ariannol i gyflenwyr sy'n sicrhau bod y cyfleoedd hyn ar gael i'w staff—yn eu hadroddiadau blynyddol.

Mae gwelliannau i'r system yn cael eu datblygu'n barhaus gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i wneud y gwaith o gyhoeddi hysbysiadau yn y Gymraeg a'r Saesneg yn haws i brynwyr ac yn gliriach i gyflenwyr.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gyfathrebu â rhanddeiliaid drwy ddogfennau canllaw, diweddariadau e-bost rheolaidd, sesiynau gweminar rhithwir, a chyflwyniadau wyneb yn wyneb i sicrhau ymwybyddiaeth o'r hyfforddiant a'r canllawiau dwyieithog sydd ar gael.

Wrth symud ymlaen, byddwn yn parhau i sicrhau llwyddiant y polisi drwy fonitro faint o ddeunyddiau sy'n cael eu defnyddio yn y Gymraeg o'u cymharu â'r Saesneg, er mwyn sicrhau bod y niferoedd yn sefydlog a/neu'n cynyddu a mynd i'r afael ag unrhyw faterion a ddygir i'n sylw er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

## D. ASESIAD O’R EFFAITH AR FIOAMRYWIAETH

**Ymgorffori bioamrywiaeth**

1. **Sut fydd eich cynnig yn integreiddio bioamrywiaeth i’r broses o wneud penderfyniadau?**

- A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau a’r cyfleoedd cadarnhaol i weithredu er bioamrywiaeth yng nghyfnodau cynnar y broses feddwl neu ddylunio prosiectau?
    - Pa effeithiau fydd gan gaffael ar fioamrywiaeth, gan gynnwys bioamrywiaeth fyd-eang?
    - A ydyw cynhyrchion yn cael eu cyrchu’n gynaliadwy?
    - A ydyw eich prosiect yn cynnwys defnyddio deunyddiau neu arferion sy’n niweidiol i fioamrywiaeth?

  **Ddim yn uniongyrchol berthnasol**

- A ydyw’n ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid a buddiolwyr ystyried yr effeithiau a’r cyfleoedd ar gyfer gweithredu cadarnhaol dros fioamrywiaeth yng nghyfnodau cynnar y broses meddwl a dylunio prosiectau?
    - A ydyw ystyried bioamrywiaeth yn ofyniad ar gyfer ceisiadau am gyllid a manylebau prosiectau?
    - A ydyw eich gwerthusiad o’r rhain yn ceisio sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei chynnal a’i gwella?

**Gall annog cyflenwyr i feddwl am agweddau bioamrywiaeth ar eu gweithrediadau.**

2. **A ydyw eich cynnig wedi sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried mewn penderfyniadau busnes?**

- A ydyw wedi ystyried costau oes gyfan sy’n cynnwys gwerth bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol o fewn y dadansoddiad cost a budd, hyd yn oed os yw hon yn broses anffurfiol?
    - A ydych chi wedi meddwl am sut y gall gwella bioamrywiaeth helpu i gyflawni ar draws gweithgareddau Llywodraeth Cymru, er enghraifft, i gefnogi gweithgareddau hamdden egnïol, addysg, y gwaith o atal llifogydd, a thyfu bwyd yn lleol? (Er enghraifft, mae toeau gwyrdd yn helpu i ddarparu cynefinoedd bywyd gwyllt, lleihau’r defnydd o ynni, a gwella systemau draenio.)
- A ydyw wedi ystyried costau hirdymor dirywiad bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol, a’r potensial ar gyfer arbedion er iechyd a llesiant, perygl llifogydd ac ati?
- A all eich cynnig annog partneriaid a buddiolwyr i ystyried y costau a’r arbedion hyn?

**Gall y Rheoliadau hyn annog cyflenwyr i feddwl am agweddau bioamrywiaeth ar eu gweithrediadau.**

3. **Sut y mae eich cynnig yn gwella dealltwriaeth ac yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth, gan annog eraill i weithredu?**

- A allwch chi weithio gyda phartneriaid a buddiolwyr i hyrwyddo dealltwriaeth o fioamrywiaeth?
- A allwch chi hyrwyddo buddion mynediad at fioamrywiaeth drwy ddarparu nwyddau a gwasanaethau cyhoeddus megis gofal cymdeithasol, datblygu cymunedol, iechyd a hamdden?
- A allwch chi ddarparu neu ddod o hyd i hyfforddiant arbenigol pan fo angen?
- A allwch chi gysylltu â strategaethau a mentrau cyfathrebu eraill ar gyfer bioamrywiaeth, er enghraifft cynlluniau gwobrwyo, digwyddiadau lleol?

**Ar eu pen eu hunain, ni fydd gan y Rheoliadau hyn fawr o effaith. Ochr yn ochr â'r canllawiau statudol ar y dyletswyddau caffael yn y Ddeddf, gall hyn hyrwyddo gwell dealltwriaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth a sut i'w hyrwyddo.**

**<u>Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth, a'n monitro</u>**

4. **A ydych chi wedi defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael o fioamrywiaeth i lywio eich cynnig a'r asesiad hwn?**

- **Rhaid** i chi roi sylw i'r canlynol:
  - rhestrau o rywogaethau a chynefinoedd o bwys pennaf a gyhoeddwyd o dan adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru);
  - yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol;
  - unrhyw ddatganiad ardal perthnasol a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

- Os yw eich cynnig yn ymwneud ag adeiladu neu reoli tir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, dylai gyfeirio at gofnodion bioamrywiaeth sydd ar gael drwy'r canlynol:
  - Canolfannau cofnodion amgylchedd lleol
  - Atlas Cymru Fyw
  - Lle

**Ddim yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn – mae'r cymwysiadau posibl yn rhy eang.**

5. **A ydych chi wedi defnyddio gwybodaeth gyfoes am yr effeithiau allweddol ar fioamrywiaeth i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth?**

- A ydych chi'n gwybod beth yw'r ffactorau sy'n sbarduno newid, a'r ffactorau negyddol allweddol a allai ddeillio o'ch cynnig?
- A ydych chi'n fodlon nad yw'r rhain yn berthnasol neu eu bod wedi cael eu hosgoi?

**Ddim yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn – mae'r cymwysiadau posibl yn rhy eang.**

6. **A all eich cynnig gyfrannu at ein corff o wybodaeth am fioamrywiaeth?**

- A all eich cynnig gynorthwyo mentrau gwyddoniaeth dinasyddion, a chynlluniau monitro?
- A ydych chi wedi sicrhau bod unrhyw ddata ynghylch bioamrywiaeth a gesglir ar gael i'r cyhoedd?

**Ddim yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn – mae'r cymwysiadau posibl yn rhy eang.**

**<u>Llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni camau gweithredu sy'n ymwneud â bioamrywiaeth</u>**

7. **A all eich cynnig gynorthwyo camau gweithredu sy'n ymwneud â bioamrywiaeth mewn unrhyw ffordd?**

- A all staff gymryd rhan mewn camau gweithredu ymarferol?
- A allwch chi ariannu camau gweithredu yn uniongyrchol, neu'n anuniongyrchol?
- A allwch chi gynorthwyo partneriaethau a/neu gydweithio ar gyfer gweithredu er bioamrywiaeth ar lefel leol a chymunedol?

**Ddim yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn – mae'r cymwysiadau posibl yn rhy eang.**

8. **A all eich cynnig helpu i feithrin capasiti ar gyfer gweithredu er bioamrywiaeth?**

- A allwch chi gynorthwyo'r gwaith o gaffael a hyfforddi sgiliau?
- A ydyw eich cynnig yn sicrhau'r lefel briodol o gymwysterau i'r rhai sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau ynghylch bioamrywiaeth?
- A all eich cynnig ariannu'r gwaith o feithrin gallu er gweithredu bioamrywiaeth?

**Ddim yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn – mae'r cymwysiadau posibl yn rhy eang.**

9. **A ydych chi wedi cofnodi penderfyniadau a chamau gweithredu i gynnal a gwella bioamrywiaeth?**
    - Rhaid cyhoeddi adroddiad ar yr hyn y mae'r awdurdod cyhoeddus wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd erbyn diwedd 2019, ac yna bob tair blynedd ar ôl y dyddiad hwn.

**Ddim yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn – mae'r cymwysiadau posibl yn rhy eang.**

**Os yw eich cynnig yn ymwneud ag adeiladu neu reoli'r tir a/neu'r môr, ystyriwch gwestiynau 10 i 16 hefyd:**

**<u>Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o bwys mawr</u>**

10. **A gydymffurfir â'r holl ddeddfwriaeth i sicrhau bod rhywogaethau a chynefinoedd y môr a'r tir yn cael eu diogelu?**

    - A oes unrhyw ofyniad ar gyfer trwyddedau, monitro a/neu orfodi wedi ei ystyried a'i weithredu?
    - A oes unrhyw ofyniad ar gyfer asesiad o'r effaith amgylcheddol / asesiad amgylcheddol strategol / asesiad rheoliadau cynefinoedd wedi ei nodi a'i weithredu?
    - A oes unrhyw effeithiau neu gyfleoedd ar gyfer gweithredu cadarnhaol ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd adran 7 wedi eu nodi a'u gweithredu?

**Ddim yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn – mae'r cymwysiadau posibl yn rhy eang.**

11. **A ydyw'r cynnig yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth <u>yn gyntaf</u>?**

    - A ydych chi wedi dewis yr opsiwn sy'n osgoi colli a/neu ddifrod i fioamrywiaeth, ac yn hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau?
    - Dim ond pan fo cydbwysedd y buddion[8] amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol a ddarperir gan eich cynnig yn golygu y gallai fod rhywfaint o golled o gynefin neu rywogaethau, a ydych chi wedi ceisio gwella bioamrywiaeth mewn mannau eraill ar y safle, neu, pan nad oes opsiwn arall, oddi ar y safle?
    - A ydyw eich cynnig yn cyfrannu at gynnal a gwella bioamrywiaeth <u>ledled</u> Cymru?

---

[8] Ystyried yn briodol buddion a gwerth cynhenid adnoddau naturiol, gan gynnwys bioamrywiaeth, ac ecosystemau.

**Ddim yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn – mae'r cymwysiadau posibl yn rhy eang.**

**Cynyddu cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol**

**12. A ydyw eich cynnig yn cyfrannu at feithrin cydnerthedd ein hecosystemau?**

- A ydyw'n gweithio gyda byd natur, ac yn ystyried defnyddio atebion ar sail natur yn gyntaf ac yn bennaf?
- A oes unrhyw atebion ar sail natur sy'n frodorol ac yn fioamrywiol?
- A all eich cynnig adfer neu gyfrannu at y gwaith o adfer cynefinoedd sydd wedi diraddio?
- A all eich cynnig gyfrannu at adeiladu rhwydweithiau ecolegol cadarn o gynefinoedd?
- A ydyw'r cynnig yn gwella rheolaeth safle i wella cyflwr cynefinoedd neu rywogaethau ar **unrhyw** raddfa; e.e. plannu rhywogaethau cynhenid, darparu ardaloedd blodau gwyllt ar gyfer peillwyr, gadael ardaloedd o laswellt heb ei dorri; a gwella cysylltedd rhwng cynefinoedd gwerthfawr?

**Ddim yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn – mae'r cymwysiadau posibl yn rhy eang.**

**13. A ydyw eich cynnig yn cyfrannu at y gwaith o greu cynefin newydd?**

- A ydyw eich cynnig yn cefnogi'r gwaith o greu cynefinoedd newydd, megis perllannau lleol, gwrychoedd cynhenid, dolydd blodau gwyllt, neu ardaloedd eraill o fannau gwyrdd brodorol, bioamrywiol?
- A all creu cynefinoedd gyfrannu at ddatblygu rhwydweithiau ecolegol cadarn?

**Ddim yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn – mae'r cymwysiadau posibl yn rhy eang.**

**Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd**

**14. A fydd gan y cynnig unrhyw effeithiau negyddol ar gynefinoedd neu rywogaethau drwy'r ffyrdd canlynol?**

- Newid yn y defnydd o dir
- Achosi llygredd aer, dŵr, golau, sŵn, neu ddirgryniad

**Ddim yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn – mae'r cymwysiadau posibl yn rhy eang.**

**15. A gydymffurfiwyd â'r holl ddeddfwriaeth ynghylch y pwysau ar rywogaethau a chynefinoedd? Byddai hyn yn cynnwys y canlynol:**

- Rheoli llygredd

- Rhywogaethau estron goresgynnol
- Systemau draenio trefol cynaliadwy
- Newid hinsawdd ac ati

**Ddim yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn – mae'r cymwysiadau posibl yn rhy eang.**

**16. Sut fydd unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu lliniaru?**

- A ddefnyddiwyd dulliau system gyfan ac atebion brodorol, bioamrywiol ar sail natur i leihau llygredd a lliniaru effeithiau newid hinsawdd?
- A ydyw eich cynnig yn defnyddio arfer gorau ar gyfer rheoli amaethyddiaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth ac adeiladu yn gynaliadwy?
- A ydyw eich cynnig yn cynnwys camau gweithredu i gynnal peillwyr?

**Ddim yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn – mae'r cymwysiadau posibl yn rhy eang.**